

<b>Teitl y swydd</b>	<b>Cynhyrchydd Cynnwys (Cyfryngau cymdeithasol)</b>		
<b>Teulu'r swydd</b>	<b>Cynhyrchu Cynnwys</b>	<b>Band Arfaethedig</b>	<b>C</b>

### Pwrpas y swydd

Bydd y Cynhyrchydd Cynnwys yn datblygu a chyflwyno cynnwys, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau creadigol a golygyddol uchaf, yn darparu ar amser ac yn unol â'r gyllideb, gan lynu at ganllawiau'r BBC.

### Atodiad

<b>Adran</b>	<b>Cymru Fyw</b>
<b>Yn atebol i (teitl)</b>	<b>Gruffudd Pritchard</b>
<b>Lleoliad</b>	<b>Caerdydd neu Fangor</b>

### Strwythur y sefydliad

Rydym am benodi person talentog i weithio yng nghanolfan y BBC ym Mangor neu Caerdydd fel cynhyrchydd ar-lein yn Gymraeg. Yn rhan o dîm y Gwasanaethau Ar-lein Cymraeg, bydd y cynhyrchydd yn creu cynnwys ac yn datblygu syniadau ar gyfer platfformau ar-lein BBC Cymru, gan weithio'n bennaf ar gyfrifon cymdeithasol BBC Cymru Fyw.

BBC Cymru Fyw yw prif wasanaeth ar-lein Cymraeg y BBC, sy'n adlewyrchu'r diweddaraf am Gymru, a hynny yn Gymraeg. Mae Cymru Fyw ar gael ar wefan y BBC, [bbc.co.uk/cymrufyw](http://bbc.co.uk/cymrufyw), a hefyd ar ffurf ap (ap Cymraeg cyntaf y BBC), ac mae gennym gyfrifon Facebook a Twitter. Bydd y cynhyrchydd hefyd yn gweithio ar gyfryngau cymdeithasol eraill BBC Cymru.

### Cyfrifoldebau ac atebolrwydd ychwanegol sy'n benodol i'r swydd

- Adnabod cynnwys da er mwyn ei gyflwyno a'i rannu mewn ffyrdd deniadol ar gyfryngau cymdeithasol y BBC.
- Defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gynhyrchu cynnwys ffurf-fer (short form), fel fideos a graffeg, i'w gyhoeddi ar blatfformau ar-lein BBC Cymru – yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Gwneud penderfyniadau golygyddol am gynnwys ar-lein gan dderbyn cyfrifoldeb am ansawdd a safon y cynnwys.
- Dadansoddi ac ymateb i ffigyrau defnydd ar-lein.
- Creu a chynnal amserlenni er mwyn cynllunio yn effeithiol a threfnus.
- Chwilio am ffyrdd o arloesi a mentro mewn maes sy'n newid yn gyson.

- Yn ogystal â Cymru Fyw, mae'n bosib bydd cyfle i weithio ar rai o wasanaethau ar-lein eraill y BBC yn Gymraeg e.e. Radio Cymru, hafan BBC Cymru.

Rydym yn chwilio am ymgeisydd sydd â'r sgiliau a phrofiad canlynol:

- Dealltwriaeth, hyder a phrofiad helaeth o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol e.e. Twitter, Facebook, Instagram.
- Dealltwriaeth a phrofiad o gynhyrchu cynnwys gan gynnwys profiad o gynhyrchu fideos, yn ddelfrydol ar gyfer plattfformau ar-lein.
- Rhugl mewn Cymraeg llafar ac ysgrifenedig a phrofiad o ysgrifennu yn Gymraeg yn glir a chywir mewn arddull sydd yn hawdd ei deall.
- Profiad o gynnig, datblygu a gwireddu syniadau newydd.
- Yn achlysurol bydd angen gweithio yn hyblyg, weithiau yn ystod oriau anghymdeithasol, er enghraifft ar benwythnosau a gyda'r nos.

#### Prif gyfrifoldebau ac atebolrwydd

- Datblygu a hyrwyddo syniadau ar gyfer cynnwys aml-lwyfan;
- Cynhyrchu cynnwys unigryw ar amrywiaeth o lwyfannau gan ddefnyddio ystod o sgiliau cynhyrchu arbenigol;
- Sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu ein cynulleidfaoedd amrywiol;
- Bod â'r wybodaeth ddiweddaraf o ran tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant;
- Gweithio'n effeithiol gydag adrannau, cyflenwyr a phartneriaid (mewnol ac allanol) eraill, gan sicrhau bod y BBC yn cynnal cysylltiadau rhagorol bob amser;
- Rheoli'r cyllidebau a'r adnoddau o fewn y ffiniau y cytunwyd arnynt.
- Datblygu a rheoli perthynas waith gadarnhaol gyda staff, cyfranwyr a thalent, a gallu rhoi adborth adeiladol;
- Ceisio gwelliannau o ran cynhyrchu cynnwys i ddatblygu effeithlonrwydd pellach yng nghyswllt arferion gwaith;
- Gweithio o fewn polisiau cydymffurfio'r BBC gan gynnwys canllawiau Golygyddol, gan gyfeirio ymlaen faterion dadleuol posib.
- Bod yn atebol am weithio o fewn polisiau a chanllawiau Cyfreithiol ac Iechyd a Diogelwch y BBC.

#### Gwybodaeth, sgiliau, hyfforddiant a phrofiad

##### Hanfodol

- Gwybodaeth drylwyr am ganllawiau golygyddol y BBC a pholisiau cydymffurfio eraill, neu fod ag awydd a gallu i ddysgu'r wybodaeth hon yn gyflym.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd y BBC o ran cywirdeb a didueddrwydd.
- Brwdfrydedd a dealltwriaeth dda iawn o'r maes y mae'r swydd yn gweithredu ynddo.
- Gwybodaeth a phrofiad amlwg o'r technegau a'r technolegau cynhyrchu diweddaraf a'r sgiliau technegol i gynhyrchu cynnwys o ansawdd ar draws aml-lwyfannau;

- Gallu dangos gwybodaeth a phrofiad o weithio mewn amgylchedd cynhyrchu cynnwys;
- Gallu dangos gallu i ddatblygu syniadau newydd, creadigol.
- Profiad o fynd â syniadau ymlaen o'r cysyniad i'r cynnyrch gorffenedig tra'n gyrru creadigrwydd ymlaen;
- Gwybodaeth am y gynulleidfa darged, eu hanghenion a'u disgwyliadau;
- Gallu sefydlu perthnasoedd effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir gydag ystod eang o bobl, talentau, partneriaid ac asiantaethau.
- Sgiliau cynllunio a threfnu effeithiol. Gallu ymdopi â sawl math o waith ar yr un pryd, blaenoriaethu, cyflawni o fewn amserlenni tynn yn gyson ac ymateb yn gadarnhaol i newidiadau a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro;
- Gallu blaenoriaethu llwyth gwaith sy'n gwrthdaro yn effeithiol, a chynnal safonau cywirdeb a sylw i fanylion wrth weithio i amserlenni neu flaenoriaethau newidiol;
- Barn olygyddol gadarn a'r gallu i benderfynu pa bryd i geisio arweiniad ac uwchgyfeirio materion pan fo'n briodol.
- Gallu i ystyried ystod o broblemau a defnyddio'i farn ei hun i gymhwyso atebion effeithiol, pan fo amser yn bwysig iawn.
- Ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb ariannol a chyllidebau a rheoli adnoddau.

### Effaith y swydd

#### ***Gwneud penderfyniadau***

Gallai'r Cynhyrchydd Cynnwys fod yn atebol i amrywiol rolau, yn dibynnu ar y maes mae'n gweithio ynddo, ond fe allai amrywio o Gynhyrchydd, Cynhyrchydd Cyfres a Chynhyrchydd Gweithredol i Bennaeth Adran.

#### ***Cwmpas***

Mae cynhyrchwyr yn atebol am lwyddiant y cynnwys y maent yn ei gynhyrchu, gyda rheolaeth olygyddol o'r dechrau i'r diwedd, gan ymgysylltu â nifer o randdeiliaid/trydydd partïon mewnol ac allanol.

### Gwybodaeth arall

#### At ddefnydd y Tîm Dyfarnu yn unig

Cod y Swydd	
Diffiniad:	Cynnwys

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn ddatganiad ysgrifenedig o nodweddion hanfodol y swydd, gyda'i phrif atebolrwydd, ac mae'n cynnwys cofnod o'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn cael lefel foddhaol o berfformiad. Nid rhoi cofnod cyflawn, manwl o bob agwedd ar y dyletswyddau sy'n rhan o'r swydd yw'r bwriad yma.*

